# Methodoleg Sgorio

Grant Gwella Eiddo Canol y Dref (TCPIG) – Cynllun 2026–2027

**Ynglŷn â'r ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut y bydd ceisiadau llawn am Grant Gwella Eiddo Canol y Dref (TCPIG) 2026–27 yn cael eu hasesu.

Rydym yn cyhoeddi ein meini prawf sgorio er mwyn i ymgeiswyr allu deall yn union beth mae'r grŵp sy'n penderfynu ar geisiadau am grant (Panel Grantiau Adfywio Sir y Fflint) yn chwilio amdano, ac mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i strwythuro eu ceisiadau yn ôl y rheiny, a gwneud yr achos cryfaf posib' dros eu prosiect. Nid oes unrhyw feini prawf cudd – mae pob elfen o'r asesiad wedi'u disgrifio yma.

## Cynnwys

Trosolwg o'r broses asesu ........ 1
Y fframwaith sgorio ........ 2
Cam 1 — Gwiriad cymhwystra ........ 3
Cam 2 — Asesiad Addasrwydd Strategol (45 pwynt) ........ 3
Adran A — Amcanion y Cynllun (uchafswm o 18 pwynt) ........ 3
Adran B — Addasrwydd Strategol ac Effaith (uchafswm o 15 pwynt) ........ 4
Adran C – Themâu Creu Lleoedd Sir y Fflint (uchafswm o 12 pwynt) ........ 5
Cam 2 — Asesiad Cyflawnadwyedd (21 pwynt) ........ 5
Sut mae sgoriau'r panel yn cael eu dwyn ynghyd ........ 6
Penderfyniadau'r panel ........ 6
Awgrymiadau i lunio cais cryf ........ 7
Rhagor o wybodaeth a chefnogaeth ........ 7

## Trosolwg o'r broses asesu

Mae ceisiadau i Gynllun Grant Gwella Eiddo Canol y Dref yn cael eu hasesu mewn dau gam:

1) adolygiad technegol cyn cyfarfod y panel gan y Tîm Adfywio,
2) sgorio gan aelodau unigol o Banel Grantiau Adfywio Sir y Fflint – mae sgoriau'n cael eu casglu ynghyd a'u trafod mewn cyfarfod panel.

| Cam | Beth sy’n digwydd | Pwy sy’n rhan o hyn |
|---|---|---|
| 1 | **Gwiriad cymhwystra**<br>*Cam gorfodol – rhaid ei basio’n llawn* | Tîm Adfywio’n gwneud hyn cyn cyfarfod y panel. Nid yw unrhyw geisiadau sy’n methu bodloni’r meini prawf i fod yn gymwys yn mynd ymlaen i gael eu sgorio. |
| 2 | **Asesiad sgorio**<br>*Addasrwydd strategol a chyflawnadwyedd* | Mae pob aelod o’r panel yn sgorio’n annibynnol. Mae sgoriau’n cael eu casglu ynghyd cyn cyfarfod y panel. Mae Panel Grantiau Adfywio Sir y Fflint yn trafod ceisiadau, a’r Cadeirydd sydd â’r gair olaf ar y penderfyniad i ariannu, y ffrwd gyllido, a swm y dyfarniad.<br><br>Gall y Tîm Adfywio geisio cyngor gan swyddogion o wasanaethau eraill o fewn y Cyngor e.e. Cadwraeth, Cynllunio, Rheoli Adeiladu, i sicrhau bod y wybodaeth mae’r ymgeiswyr wedi’i darparu’n gywir ac er mwyn gwirio pa mor gyflawnadwy yw’r cynigion. |

## Y fframwaith sgorio

Mae ceisiadau cymwys yn cael eu sgorio ar ddwy brif elfen. Mae i’r ddwy elfen drothwyon isafswm sgôr y mae’n rhaid eu cyrraedd er mwyn cynnig grant.

| Fframwaith sgorio | Meini prawf | Uchafswm sgôr | Trothwy’r isafswm |
|---|---|---|---|
| **ADDASRWYDD STRATEGOL:** | **17** | **45** | **25 / 45** |
| A: Amcanion y Cynllun (6 maen prawf x 3) | 6 | 18 | — |
| B: Addasrwydd Strategol ac Effaith (5 maen prawf x 3) | 5 | 15 | — |
| C: Themâu Creu Lleoedd Sir y Fflint (6 maen prawf × 2) | 6 | 12 | — |
| **CYFLAWNADWYEDD:** | 7 | **21** | **15 / 21** |
| D: Cyflawnadwyedd (7 maen prawf x 3) | 6 | **18** | — |
| **Cyfanswm sgôr** | **24** | **66** | **40 / 66** |

**Pwysig: mae’n rhaid cyrraedd y ddau drothwy**

Mae’n rhaid i brosiect sgorio o leiaf 15 o 21 ar Gyflawnadwyedd AC o leiaf 25 o 45 ar Addasrwydd Strategol. Nid yw cyrraedd y trothwy ar gyfer un elfen yn unig yn ddigon i gael cynnig grant. Cyfanswm y trothwy sgorio yw 40 o 66.

## Cam 1 — Gwiriad cymhwystra

Cyn i'r sgorio ddechrau, mae'r Tîm Adfywio'n gwirio bod y cais yn bodloni'r holl feini prawf gorfodol. Mae hwn yn wiriad pasio neu fethu – mae methu ar unrhyw agwedd yn golygu na all y cais gael ei asesu gan y panel.

| Cyf. | Meini prawf cymhwystra |
|---|---|
| E1 | Mae'r eiddo o fewn (neu o fewn 0.5 milltir i) ffin ddiffiniedig canol y dref yn un o'r wyth tref sy'n gymwys. |
| E2 | Mae'r eiddo'n adeilad masnachol neu ddefnydd cymysg (nid preswyl yn unig). |
| E3 | Yr ymgeisydd yw perchennog y rhydd-ddaliad, neu mae'n lesddeiliad gydag o leiaf 3 blynedd ar ôl y tu hwnt i 31 Ionawr 2027 (h.y. mae'r brydles yn para tan o leiaf 31 Ionawr 2030). |
| E4 | Os yw'n lesddeiliad: mae caniatâd ysgrifenedig wedi'i roi gan y landlord. |
| E5 | Os yw'n lesddeiliad: mae cyfnod y brydles wedi'i gadarnhau gan dystiolaeth ddogfennol. |
| E6 | Gwaith cyfalaf yw natur y gwaith yn y cais – nid gwaith cynnal a chadw arferol, symud cyfarpar na gwaith preswyl yn unig. |
| E7 | NID yw'r gwaith wedi dechrau'n barod nac wedi'i archebu, ac nid oes unrhyw flaendaliadau wedi'u talu cyn cael cynnig grant. |
| E8 | Mae swm y grant a geisir rhwng £5,000 a £50,000 ac nid yw'n fwy na 70% o gyfanswm costau cymwys y prosiect. |
| E9 | Mae'r ymgeisydd wedi dangos tystiolaeth o isafswm o 30% o gyfraniad o'u hadnoddau eu hunain. |
| E10 | Mae'r ymgeisydd wedi datgan yr holl arian cyhoeddus a gafwyd yn y 3 blynedd ariannol ddiwethaf (Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022). Heb fynd dros y terfyn *de minimis* cyfansymiol. |
| E11 | Mae modd cwblhau'r gwaith a chyflwyno'r holl anfonebau erbyn 31 Ionawr 2027. |
| E12 | Lle bo angen, mae caniatâd cynllunio / adeilad rhestredig / ardal gadwraeth wedi'i geisio neu ei roi, neu mae'r ymgeisydd yn cadarnhau nad oes ei angen. |

## Cam 2 — Asesiad Addasrwydd Strategol (45 pwynt)

Mae'r Asesiad Addasrwydd Strategol yn mesur ansawdd ac uchelgais y prosiect yn ôl amcanion y cynllun, tystiolaeth o angen, a sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau creu lleoedd Sir y Fflint. Mae tair adran iddo.

### Adran A — Amcanion y Cynllun (uchafswm o 18 pwynt)

Mae pob maen prawf yn cael ei sgorio o 0 i 3. Mae'r sgoriau'n adlewyrchu pa mor glir mae'r cais yn dangos yr amcan ddynodedig, a hynny wedi'i ategu gan dystiolaeth benodol.

| Sgôr | Beth mae'n ei olygu |
|---|---|
| 0 | Amherthnasol i'r prosiect hwn, neu ddim tystiolaeth wedi'i darparu. |
| 1 | Posib' / gwan – mae'r cysylltiad yn bosib' ond heb ei ddangos yn glir. |
| 2 | Cymharol – wedi'i drafod gyda rhywfaint o fanylion ategol. |
| 3 | Cryf – wedi'i ddangos yn glir gyda thystiolaeth benodol, gredadwy. |

| Cyf. | Meini Prawf | Uchafswm |
|---|---|---|
| O1 | Adnewyddu neu wella eiddo masnachol presennol – gwaith i wella gwedd, cyflwr neu weithrediad yr adeilad. | 3 |
| O2 | Dod ag uned fasnachol wag neu un sy'n cael ei thanddefnyddio yn ôl i gael ei defnyddio. | 3 |
| O3 | Creu neu ddiogelu swyddi (cyfwerth â llawn amser). | 3 |
| O4 | Cefnogi busnes sy'n bodoli eisoes i weithredu, masnachu neu dyfu. | 3 |
| O5 | Gwella effeithlonrwydd ynni'r adeilad. | 3 |
| O6 | Cefnogi busnesau Cymreig trwy gaffael contractwyr lleol. | 3 |

## Adran B — Addasrwydd Strategol ac Effaith (uchafswm o 15 pwynt)

Mae pob maen prawf yn cael ei sgorio o 0 i 3, gan ddefnyddio'r un allwedd ag Adran A uchod.

| Cyf. | Meini Prawf | Uchafswm |
|---|---|---|
| S1 | Tystiolaeth o angen – disgrifio problemau presennol penodol (lleithder, problemau strwythurol, gwag, dirywiad) ac yn egluro beth fyddai'n digwydd i'r adeilad a'r busnes heb y gwaith. | 3 |
| S2 | Effaith economaidd – creu a diogelu cyflogaeth, cefnogi hyfywedd busnes, neu'n cynyddu gweithgarwch economaidd yng nghanol y dref. | 3 |
| S3 | Gwelliant diriaethol a gweledol – gwneud gwahaniaeth amlwg i wedd a chyflwr yr adeilad a'r strydlun o'i amgylch. | 3 |
| S4 | Cynaliadwyedd a gwytnwch – gwella cyflwr hirdymor, perfformiad ynni, neu hyblygrwydd yr adeilad. | 3 |
| S5 | Budd cymunedol – cefnogi mynediad at wasanaethau neu sefydliad cymunedol neu'n cyfrannu at wneud canol y dref yn fwy deniadol a bywiog. | 3 |

### Adran C – Themâu Creu Lleoedd Sir y Fflint (uchafswm o 12 pwynt)

Yn Adran C, mae sgôr o 0 i 2 i bob maen prawf. Nid oes angen i chi ymdrin â phob un o'r chwe thema – dim ond y themâu sy'n wirioneddol berthnasol i'ch prosiect chi. Bydd y panel yn gwirio'r themâu sydd wedi'u dewis gan edrych ar y rhestr o waith a'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

| Sgôr | Beth mae'n ei olygu |
|---|---|
| **0** | Amherthnasol, neu ddim tystiolaeth bod y thema hon yn berthnasol i'r prosiect. |
| **1** | Posib' – mae'r cysylltiad yn bosib' ond heb ei ddangos yn glir. |
| **2** | Cryf – wedi'i ddangos yn glir gyda thystiolaeth benodol, gredadwy. |

| Cyf. | Thema | Uchafswm |
|---|---|---|
| **P1** | Pobl a Chymuned – darparu neu'n gwella man masnachol gan alluogi gwasanaethau lleol, mynediad i'r gymuned neu weithgarwch menter gymdeithasol. | **2** |
| **P2** | Symudiad – gwella blaen siop, mynedfa neu fynediad fel bod yr eiddo'n fwy croesawgar ar droed; cyfrannu at fywiogrwydd y stryd o'i flaen. | **2** |
| **P3** | Parth Cyhoeddus – gwaith allanol sydd yn gwella safon weledol y stryd: trwsio'r ffasâd, deunyddiau sympathetig, gwella arwyddion. | **2** |
| **P4** | Lleoliad – gwneud gwell defnydd o ased presennol yng nghanol y dref, yn enwedig strwythur nodedig neu adeilad o arwyddocâd hanesyddol. | **2** |
| **P5** | Defnydd cymysg – creu defnydd i uned gwag unwaith eto; creu lle ar gyfer math newydd o fusnes neu weithgaredd nad oedd ar gael yn y dref o'r blaen. | **2** |
| **P6** | Hunaniaeth – gwaith ar adeilad rhestredig neu du blaen adeilad/adeiladau pwysig i dreftadaeth, neu ddefnyddio deunyddiau traddodiadol sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol. | **2** |

## Cam 2 — Asesiad Cyflawnadwyedd (21 pwynt)

Mae'r asesiad Cyflawnadwyedd yn mesur hyder y panel y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ar amser, o fewn ei gyllideb ac i'r safon a ddisgrifir yn y cais. Mae pob un o'r saith maen prawf yn cael ei sgorio o 0 i 3, gan ddefnyddio'r un allwedd ag Adran A uchod. Mae trothwy isafswm o 15 o 21 i'r elfen hon.

| Cyf. | Meini Prawf | Am beth mae'r panel yn chwilio | Uchafswm |
|---|---|---|---|
| **D1** | **Hyfywedd y rhaglen** | *A yw'r dyddiad cwblhau yn ymarferol o ystyried cwmpas, hyd prosesau caffael a'r dyddiad terfyn, sef 31 Ionawr 2027?* | **3** |
| **D2** | **Parodrwydd contractwyr** | *A yw'r ymgeisydd wedi dod o hyd i gontractwr neu lunio rhestr fer? A yw dyfynbrisiau'n gredadwy, yn gymaradwy ac ar lythyr â phennawd?* | **3** |

| Cyf. | Meini Prawf | Am beth mae'r panel yn chwilio | Uchafswm |
|---|---|---|---|
| D3 | **Cadernid y costau** | *A yw'r costau sydd yn y dyfynbris yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio, ac o fewn ystod realistig y farchnad?* | 3 |
| D4 | **Arian cyfatebol a llif arian** | *A yw isafswm cyfraniad yr ymgeisydd o 30% wedi'i gadarnhau a'i brofi â thystiolaeth? A yw'r ymgeisydd yn gallu ariannu'r gwaith yn ei gyfanrwydd cyn hawlio wedyn?* | 3 |
| D5 | **Gallu i reoli'r prosiect** | *A oes gan yr ymgeisydd brofiad a gallu i reoli'r gwaith cyflawni, goruchwylio contractwyr, a bodloni amodau'r grant?* | 3 |
| D6 | **Sefyllfa o ran caniatâd** | *A yw'r ymgeisydd wedi cael y caniatâd angenrheidiol, wedi ymgeisio amdano, neu wedi cadarnhau nad oes ei angen? A oes risg realistig o oedi neu o wrthod?* | 3 |
| D7 | **Rheoli risg** | *A yw'r ymgeisydd wedi pennu'r prif risgiau i allu cwblhau'r prosiect, ac ar gyfer pob risg, wedi disgrifio pa gamau neu fesurau lliniaru y byddent yn eu cymryd?* | 3 |

## Sut mae sgoriau'r panel yn cael eu dwyn ynghyd

Mae pob aelod o Banel Grantiau Adfywio Sir y Fflint yn sgorio ceisiadau'n annibynnol cyn cyfarfod y panel.

Caiff sgoriau'r unigolion eu casglu ynghyd cyn cyfarfod y panel. Mae'r sgôr gyfartalog ar gyfer pob maen prawf yn cael ei chyfrifo o sgôr y pedwar aelod o'r panel. Bydd y panel wedyn yn cyfarfod i drafod y ceisiadau, datrys unrhyw wahaniaethau mawr o ran sgorio, a dod i benderfyniad terfynol.

Gan y Cadeirydd mae'r bleidlais fwrw a'r gair olaf ar y penderfyniad i ariannu, y ffrwd gyllido a swm y dyfarniad. Gall y Cadeirydd ddyfarnu llai o swm na'r hyn y gwnaed cais amdano.

## Penderfyniadau'r panel

Gall y panel wneud un o dri phenderfyniad ar bob cais:

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyo** | Bydd grant yn cael ei gynnig. Mae'r llythyr dyfarnu'n cadarnhau swm y grant, y gwaith sy'n gymwys, y dyddiad terfyn i'w gwblhau ac unrhyw amodau. |
| **Cymeradwyo gydag amodau** | Bydd grant yn cael ei gynnig, ond mae'n rhaid bodloni un neu fwy o amodau cyn neu wrth ei gyflawni (e.e. darparu dyfynbrisiau sydd heb gyrraedd, cadarnhau caniatâd cynllunio). Mae'r amodau i'w gweld yn y llythyr dyfarnu. |
| **Gohirio** | Nid yw'r cais wedi'i gymeradwyo yn y cyfarfod hwn. Bydd y panel yn darparu rhesymau ysgrifenedig ac yn cadarnhau pa wybodaeth neu gamau pellach sydd eu hangen cyn gallu ailystyried y cais mewn rownd yn y dyfodol. |
| **Gwrthod** | Bydd y panel yn rhoi esboniad ysgrifenedig o'r rhesymau dros wrthod. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ymgeiswyr yn gallu mynd i'r afael â'r materion a godwyd ac ailymgeisio mewn rownd yn y dyfodol. Bydd eich swyddog cefnogi'n trafod hyn gyda chi. |

Rhoddir gwybod am benderfyniadau yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith i gyfarfod y panel.

## Awgrymiadau i lunio cais cryf

Dyma ganllawiau i helpu ymgeiswyr i gael y sgôr uchaf posib' – yn enwedig ar Gyflawnadwyedd, lle mae'r trothwy uchaf o gymharu â'r marciau sydd ar gael.

### O ran Cyflawnadwyedd

- Ceisiwch gael dau ddyfynbris ysgrifenedig mae modd eu cymharu ar gyfer pob elfen o'r gwaith cyn cyflwyno. Dyfynbrisiau gan gontractwyr o Gymru ar bapur â phennawd y cwmni sy'n sgorio uchaf.
- Dwedwch yn eglur pwy fydd yn rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd. Enwch y sawl sy'n gyfrifol a disgrifiwch sut y byddant yn goruchwylio'r contractwr/wyr.
- Cadarnhewch eich 30% o arian cyfatebol gyda thystiolaeth – datganiad banc diweddar neu lythyr gan gyfrifydd. Mae ceisiadau lle nad oes cadarnhad o arian cyfatebol yn sgorio'n wael ar D4.
- Darparwch raglen realistig gyda dyddiadau. Os yw eich prosiect yn gymhleth neu'n cynnwys cael caniatâd cynllunio, caniatewch ddigon o amser ac eglurwch eich cynllun wrth gefn, os oes oedi wrth gael caniatâd.
- Ewch i'r afael â risgiau'n benodol: nodwch eu tebygolrwydd, yr effaith bosib', a beth fyddech chi'n ei wneud pe bai'r risg yn dod yn wir. Mae datganiadau risgiau annelwig yn sgorio 0–1.

### O ran Addasrwydd Strategol

- Byddwch yn benodol ynglŷn â´r hyn sy'n bod â'r adeilad heddiw – lleithder ar hyn o bryd, dirywiad strwythurol, gwag yn hirdymor. Mae datganiadau amhendant fel 'mae angen gwella'r adeilad' yn sgorio 0–1 ar S1.
- Disgrifiwch beth fydd yn wahanol ar ôl y gwaith – ar gyfer yr adeilad, y busnes a'r stryd. Rhowch feintiau lle gallwch chi (arwynebedd llawr, swyddi, arbedion ynni).
- Dewiswch themâu ac amcanion creu lleoedd sydd wir yn berthnasol yn unig. Bydd y panel yn gwirio pob dewis gan edrych ar y rhestr o waith – gall dewis gormod effeithio ar hygrededd.
- Os yw eich adeilad yn un rhestredig neu mewn ardal gadwraeth, dangoswch eich bod wedi ymgysylltu â Swyddog Cadwraeth Cyngor Sir y Fflint yn gynnar. Mae hyn yn dangos ymwybyddiaeth o'r caniatâd angenrheidiol ac ymrwymiad i ddyluniadau o safon.

## Rhagor o wybodaeth a chefnogaeth

Mae'r Tîm Adfywio ar gael i gefnogi ymgeiswyr drwy gydol y broses.  Os oes gennych chi gwestiynau am y meini prawf sgorio neu sut i gyflwyno tystiolaeth, cysylltwch â ni cyn cyflwyno eich cais.

| | |
|---|---|
| **E-bost** | regeneration@flintshire.gov.uk |
| **Gwefan** | www.siryfflint.gov.uk/GGECD |
| **Amser ymateb** | O fewn 5 diwrnod gwaith |